

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod [zoom] a gynhaliwyd ar y 14eg Chwefror 2022.

Presennol- Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones, Janet Charlton, Neil Pringle, Catherine Williams, Mari E M Mathews Anna Brown, Cyng Elisabeth Roberts Cyngor BS Conwy, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau –

Datgan diddordeb. Dim datganiad.

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 14eg Chwefror 2022

Materion yn codi

[1] Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol.

[1.1] Pont Droed yn uwch i fyny'r afon o Bont-y-Pair

Dywedodd y clerch iddo gysylltu gyda ymgynhorwyr Matt Macdonald a'i fod yn disgwyl gair ganddynt ynglŷn ag ymweliad a'r safle.

[1.2] Pont –y-Mwynwyr

Nodwyd bod y gwaith wedi ei gwblhau. Penderfynwyd anfon gair o ddiolch i Gyngor BS Conwy.

[1.3] Tai Fforddiadwy/ Cartrefi Conwy

Dywedodd y Cyng E Roberts ei bod yn cwrdd â chyfarwyddwyr y cwmni tai yn rheolaidd a bod disgwyliad am ganiatâd cynllunio

[1.4] Caffi 'r Rheilffordd Fach

Dywedodd y clerch bod swyddog gorfodaeth y Par Cenedlaethol wedi cytuno i ymweld â'r lleoliad

[1.5] Materion Parcio Bro Gethin

Yn dilyn cyfarfod ar y safle eglurodd y Cyng E Roberts bod amcan bris o ddeutu £80K yn debygol ar gyfer creu maes parcio. Penderfynwyd cysylltu gyda Chyngor BS Conwy a Chartrefi Conwy ynglŷn ag y posibilrwydd o greu partneriaeth, gyda'r Cyngor Cymuned yn cyfrannu tua'r gost.

Cytunodd y Cyng Neil Pringle i geisio 3 amcan bris.

[1.6] Llystyfiant Pont-y-Pair

Eglurodd y Cyng E Roberts bod y gwaith allan ar gyfer derbyn 3 tender. Y clerch i gysylltu gyda CADW/APCE/Cyngor BS Conwy/CNC i wneud ymholiad tybed a fyddai'n bosib gwneud y gwaith i oleuo'r bônt yr un pryd.

[1.7] Dyn mewn Fan

Penderfynwyd gohirio'r mater nes bydd cyfle i gwrdd gydag Edward Jones APCE ynglun a gwaith cynhaliath leol.

[1.8] Ynys y Ffynidwydden/ Afon Llugwy

Dywedodd y clerc bod cyfeirnod map wedi ei anfon at Gyfarwyddwr Cyfreithiol a Democrataidd Cyngor BS Conwy, ynglun a pherchnogaeth yr ynys.

[1.9] Baw Cwn/ Pentre' Du

Dywedodd y clerc bod trefniadau wedi ei gwneud i osod bin baw cwn, wrth ymyl y banciau ail gylchu ym Mhentre Du.

[2.] Atgyweirio/Pont-y-Soldiwr

Eglurodd y Cyng E Roberts bod y gwaith yn cychwyn yn ganol Ebrill. A bydd y contractwr a fu'n gyfrifol am y gwaith a'r Bont y Mwynwyr yn ymgymryd â'r gwaith a'r Bont y Soldiwr.

[2.1] Holiadur Cymuned

Dywedodd y Cyng Mari E M Mathews bod yr holiadur wedi ei newid a'i fod yn barod i'w gylchredeg.

[2.2] Ysbwriel Ffordd yr Orsaf

[2.2] Dywedodd y Cyng E Roberts bod Pwyllgor Rheoli'r Parc Cenedlaethol wedi cytuno i osod camerâu cylch agos yn y maes parcio arhosiad hir. ond bod pryder nad yw'r giât newydd wedi ei gosod ym mhen ucha' Cae Llan

[2.3] Cyfarpar Chwaraeon Cae Llan

Cytunodd y Cyng E Roberts i adrodd ymhellach ar y mater'

Y Brif Agenda

[2.4] Materion Cynllunio

Trosi garej deulawr arwahan yn uned gwyliau hunain arlwygo tymor byr.

Bronant Pentre Dy, Betws-y-Coed.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod

[2.3] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau a'r derbyniadau a amlinellwyd gan y clerc i ddiwedd Chwefror 2022.

[b] Dywedodd y clerc bod y nifer yn ymweld ar Rhaeadr Ewynnol yn gwella yn dilyn y cyfnod y bu ar gau yn o ganlyniad cofid.

[c] Cyllideb 2022/23. Penderfynwyd cymeradwyo'r gyllideb a baratowyd gan y clerc.

[d] Cyfeiriodd y clerc at ohebiaeth gan Ystâd Ancaster yn ceisio cynyddu siâr yr ystâd o'r derbynebau yn Rhaeder Ewynnol o 33.3% i 50% ar gyfer gweddill y brydles. Penderfynwyd nad yw'r Cyngor Cymuned yn gyntun a'r cais ac y dylai telerau'r brydles gyfredol gael ei dilyn.

[e] Cyflog y Clerc. Nodwyd fod cyflog y Clerc wedi cynyddi yn unol â rhestr NALC (SP5 pro rata 25 awr yr wythnos) yn effeithiol o'r 1af o Ebrill 2021.

[2.4] Eisteddfod Llanrwst

Penderfynwyd cyfrannu £100.00 tuag at yr Eisteddfod.

Gareth Wynne, Cadeirydd